Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Awst 2018

Annwyl Daivd,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, "Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?". Cyfeiriaf yn arbennig at yr egwyddorion yr ydych wedi'u datblygu ynghylch, yn gyntaf, y mecanwaith cyfreithiol ar gyfer cynnal cyfraith yr UE ac, yn ail, y cysylltiadau rhynglywodraethol â'r UE, yn ystod y cyfnod pontio.

O ran yr egwyddor gyntaf, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), er y diddymir Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, bwriedir i gyfraith yr UE barhau'n gymwys i'r DU yn ystod y cyfnod pontio. Cyflawnir hyn drwy arbed effaith Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn ystod y cyfnod pontio ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Er hynny, bydd rhaid bod yn ddethol wrth arbed effaith Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, er mwyn adlewyrchu'r ffaith na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE yn ystod y cyfnod pontio.

Mae fy swyddogion i'n trafod manylion y ddarpariaeth hon â swyddogion yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, rydym yn dal i ddisgwyl y bydd cryn dipyn o debygrwydd rhwng y modd y cymhwysir cyfraith yr UE yn y DU yn awr ac yn ystod y cyfnod pontio ac y byddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru rôl i'w chwarae yn hyn. Mae amryw o opsiynau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gweithredu cyfraith yr UE yng Nghymru, drwy gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol, ac rydym yn disgwyl y bydd yr holl fecanweithiau presennol ar gyfer cymhwyso cyfraith yr UE at ddibenion y Cytundeb Ymadael yn dal i fod ar gael yn ystod y cyfnod pontio.

Ni fydd hyn yn effeithio ar drafodaethau ar wahân ynghylch yr angen am fframweithiau cyffredin, i'w gweithredu o dan y gweithdrefnau a amlinellir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac a fyddai'n amodol ar gytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, ac ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE. Rydym yn rhagweld mai dim ond ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben y byddai'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r fframweithiau hyn yn gymwys.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran yr ail egwyddor a ddatblygwyd gennych, ac fel y dywedais wrthych yn fy llythyr atoch ym mis Mehefin, mae'n sicr yn uchelgais gennym na ddylai ein cyfranogiad priodol yng nghynrychiolaeth y DU yn yr UE leihau yn ystod y cyfnod pontio. Nid yw union natur y cyfranogiad hwnnw wedi'i phennu hyd yma. Fodd bynnag, rydym wedi codi mater ein cyfranogiad yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion gyda Llywodraeth y DU, a byddwn yn parhau i ddadlau dros hynny a thros gael cymryd rhan briodol mewn unrhyw feysydd eraill o ryngweithio â'r UE, er enghraifft y negodiadau ar ddyfodol y bartneriaeth economaidd.

Fel y dywedais ym mis Mehefin, mae hyn yn tynnu ar y dull a amlinellwyd yn y Concordat ar Gydgysylltu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd, yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli, ynghylch presenoldeb Gweinidogion yn y Cyngor a chyfarfodydd rhwng Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig, fel y'i cryfhawyd yn 2013 drwy welliant y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Rwy'n ddiolchgar am gael copi o’ch llythyrau at Gadeiryddion Pwyllgorau Tŷ’r Cyffredin a Thŷ’r Arglwyddi ac am eich gwaith parhaus chi a’ch Pwyllgor i sicrhau bod goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE yn cael eu hystyried yn briodol a bod paratoadau'n cael eu gwneud i ddiogelu buddiannau Cymru, a'r setliad datganoli.

Yn gywir,

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance